

## WATKINS, JOSHUA (1769/70 - 1841), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Joshua Watkins  
**Dyddiad geni:** 1769/70  
**Dyddiad marw:** 1841  
**Rhiant:** Howell Watkins  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd, gellid meddwl, yn Llangynidr (Brycheiniog) - yr oedd yn un o ymddiriedolwyr tŷ cwrdd cyntaf y Bedyddwyr yno yn 1794 (D. Jones, *Bed. Deheubarth*, 655), a gall mai mab oedd i'r Howell Watkins y byddai'r Bedyddwyr yn cyfarfod yn ei dŷ cyn hynny (op. cit., 811). Ond aelodau yn Llanwenarth oedd Bedyddwyr Llangynidr gynt, ac yno, yn 1789 (op. cit., 658) y bedyddiwyd Joshua Watkins ac y dechreuodd bregethu (1790). Byddai'n cenhadu yn Llangynidr, yn Nhrefgar ac ym mlaenau Rhymni. Yn 1793 symudodd i Gaerfyrddin i helpu ei gyfaill M. J. Rhys gyda'r *Cylchgrawn Cymmraeg*, ac y mae stori amheus (gweler J. Evans, *Morgan John Rhys*, 33-4) i'r ddau orfod ffoi o'r dref; sut bynnag, dychwelodd i'w gartref ar farw'r *Cylchgrawn*. Eithr ar 28 Mawrth 1796 urddwyd ef yn weinidog Penuel, Caerfyrddin. Y mae'n amlwg ei fod yn genhadwr selog; helaethodd ei gynulleidfa'n ddirfawr, a phlannodd achosion yng Nglan-y-fferi, Cydweli, Porth-y-rhyd, a mannau eraill. Eithr nid oedd ei olygiadau diwinyddol, fwy na'r eiddo M. J. Rhys, wrth fodd uchel-Galfiniaid y gorllewin; tynnwyd ef i mewn i'r dadleuon a arweiniodd yn 1799 i'r rhwyg ymysg y Bedyddwyr, ac yn y flwyddyn honno cefnodd ef a'i eglwys ar y Bedyddwyr Neilltuol; cawn ef yn 1801 (a'i enw wedi ei gam-godi'n 'Joshua Mathias ') yn apelio at gymanfa'r Bedyddwyr Cyffredinol yn Llundain am help ariannol i'r enwad bychan yng Nghymru (Whitley, *Minutes of the General Baptist Association*). Ond perthynai Watkins i'r adran o'r Bedyddwyr Cyffredinol na fyddai fynd ymhellach tua'r aswy nag Arminiaeth, ac a ddychrynid gan duediadau Undodaidd amryw o'u cydweinidogion Cymreig; felly, yn 1805, ymchwelodd ef a'i gynulleidfa at y Bedyddwyr Neilltuol. Cafodd groeso mawr ganddynt; ymddengys ei enw ar unwaith ar restrau pregethwyr y cymanfaeodd (*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1942, 16), a cheir ef yn cydweithio â'i wrthwynebwr gynt, Titus Lewis yn y gwaith o edfydd cynulleidfaoedd coll megis y Tŷ Coch (Llangynog), 1806. Bu'n fawr ei boblogrwydd weddill ei fywyd. Dywed *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (ii, 609) fod ganddo fasnach yn y dref - efallai fel llyfrwerthwr; yn 1809 yr oedd yn argraffydd a chyhoeddwr, ar y dechrau gyda phartneriaid, ond o 1810 ymlaen ar ei gyfrifoldeb ei hun. Bu farw 22 Mehefin 1841, 'yn 71 oed' meddai *Seren Gomer* (1841; 223 ), yn ôl J. T. Jones yn y yn y *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* fe'i ganwyd yn 1769. Yr oedd ganddo fab yn feddyg; gweddw hwnnw oedd ail wraig H. W. Jones, gweinidog y Tabernacl, Caerfyrddin.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 444-5

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1930

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923*(Cardiff 1925), 209

a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748854

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). WATKINS, JOSHUA (1769/70 - 1841), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WATK-JOS-1769>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government